Estyn



# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Wirfoddol Abergwili

## Dyddiad yr arolygiad: Mai 2024

gan Estyn, Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

# Crynodeb

Mae pennaeth gweithredol yn arweinydd medrus a chraff sy'n gosod disgwyliadau uchel o'i hun a'i staff. Rhoddir pwyslais cryf ar gynnal lles y disgyblion ac i sicrhau bod yr ysgol yn rhan greiddiol o'i chymuned leol, gan gynnwys yr eglwys. Nodwedd gref o waith y pennaeth yw'r modd mae'n annog staff o'r ddwy ysgol sydd o dan ei harweiniad i gydweithio a chefnogi ei gilydd er mwyn cryfhau a gwella'r ddarpariaeth.

Mae arweinwyr yn defnyddio trefniadau hunanwerthuso effeithiol er mwyn amlygu cryfderau a meysydd i'w gwella. Mae arweinwyr ac aelodau'r corff llywodraethol yn cymryd rhan weithredol yn y broses, sy'n cefnogi eu dealltwriaeth o flaenoriaethau'r ysgol yn dda. Maent yn hyrwyddo diwylliant diogelu cadarn ac yn rheoli'r gyllideb yn ofalus i leihau'r diffyg presennol.

Mae natur ofalgar, gynhwysol a theuluol yr ysgol yn hyrwyddo ymddygiad da ymysg y disgyblion ac yn eu hannog i ofalu am a pharchu ei gilydd. Mae disgyblion yn dangos agweddau cryf tuag at ddysgu, gan gydweithio'n briodol ar dasgau ymarferol a datblygu eu medrau dysgu annibynnol. Er bod disgyblion yn adeiladu'n gynyddol ar y medrau hyn, prin yw'r cyfleoedd i'r disgyblion hŷn ymateb i adborth athrawon er mwyn gwella eu gwaith eu hunain.

Mae athrawon yn darparu cwricwlwm diddorol sydd wedi'i seilio ar yr ardal leol. Yn ystod eu hamser yn yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu. Gan ystyried bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn newydd i'r Gymraeg, mae llawer o'r disgyblion ieuengaf yn cyfathrebu'n gynyddol hyderus. Er bod y rhan fwyaf o'r disgyblion hŷn yn defnyddio'r Gymraeg yn briodol, nid ydynt bob tro'n defnyddio iaith lafar raenus yn ddigon cyson wrth gyfathrebu. Yn gyffredinol, mae llawer o'r disgyblion hŷn yn adeiladu'n briodol ar eu medrau ysgrifennu cynnar cadarn. Er hyn, nid yw athrawon yn darparu cyfleoedd digon cyson i ddisgyblion gymhwyso'u medrau ac ysgrifennu'n estynedig ar draws y cwricwlwm.

Dros amser, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd addas yn eu medrau rhifedd. Er hyn, prin yw'r cyfleoedd i'r disgyblion hŷn ddatblygu ystod lawn o fedrau a dealltwriaeth yn unol â'u gallu a'u cam ddatblygiad. Yn ogystal, prin yw'r cyfleoedd iddynt ymarfer a chymhwyso'u medrau mewn meysydd eraill o'r cwricwlwm. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn gadarn.

# Argymhellion a beth sy'n digwydd nesaf

**Rydym wedi gwneud 3 argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella**

**A1 Cryfhau medrau Cymraeg disgyblion**

**A2 Sicrhau bod y profiadau dysgu yn herio'r disgyblion yn gyson i'w cefnogi i gyflawni hyd orau eu gallu a'u cam datblygiad**

**A3 Cynllunio cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion ddatblygu a chymhwyso eu medrau llythrennedd a rhifedd yn fwriadus dros amser**

**Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.**

**Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o'r ysgol, dilynwch y ddolen hon i'r adroddiad llawn.**




Ⓗ Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 10/07/2024

Sylwer, efallai na fydd y ffotograffau sy'n cael eu dangos yn rhai o'r ysgol sy'n destun yr adroddiad hwn.